



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Dod yn Gymru wrth-
wahaniaethu sy'n
hyrwyddo cydraddoldeb
a gwerthfawrogi amrywiaeth
mewn gofal cymdeithasol

Cynllun cydraddoldeb strategol 2022 i 2027

Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Rhif ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: [@GofCymdeithasol](https://twitter.com/GofCymdeithasol)

© 2022 Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae croeso i chi wneud sylwadau ar y cynllun cydraddoldeb. Os oes gennych sylw, neu os dymunwch oleuo ein gwaith, cysylltwch â ni.

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio ar system ad-alw, na'i drawsyrnu mewn unrhyw ffurf na mewn unrhyw ffordd, heb ganiatâd yn gyntaf gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r hyn a ganiateir yn gyfreithiol at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad uchod.

Fformatau eraill: Mae'r ddogfen hon ar gael mewn testun mawr, Braille ac ieithoedd eraill, lle bo angen. Gallwch ofyn am y rhain drwy'r manylion cyswllt uchod. Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.

Trosolwg

Mae'r cynllun cydraddoldeb strategol (cynllun cydraddoldeb) hwn yn dangos ymrwymiad Gofal Cymdeithasol Cymru i fod yn sefydliad sy'n gweithio'n benodol i wella bywydau pobl gyda nodweddion a warchodir drwy:

- mynd i'r afael â gwahaniaethu
- hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth
- creu cymdeithas fwy cynhwysol.

Gwyddom mai ein rôl yw arwain ar ofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yn y pethau hyn, a gweithio ag eraill yn y sector i greu newid gwirioneddol ac ystyrlon.

Deallwn na allwn byth orffwys ar ein rhwyfau wrth ymrwymo i wrthwynebu gwahaniaethu. Rhaid i ni fod yn onest ac agored am ble'r ydyn ni a beth sydd angen i ni ei wneud. Mae amcanion y cynllun cydraddoldeb hwn yn rhan o hynny ond bydd angen i ni wneud mwy os am gwrdd â'n huchelgais ni ac uchelgais ein dinasyddion.



Rhagair gan ein Cadeirydd a Phrif Weithredwr

Mae'r cynllun cydraddoldeb strategol newydd hwn yn rhoi cyfle i ni gyplysu gyda, a myfyrio ar, yr uchelgais yn ein *Cynllun strategol 2022 i 2027*. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ni ymateb i'r anghydraddoldebau presennol a pharhaus a ddaeth yn fwy i'r golwg ac a waethygyd gan bandemig Covid-19.

Dangosodd y pandemig ba mor greiddiol bwysig yw'r gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar i lesiant pobl o bob oed mewn cymunedau ledled Cymru. Mae'r gweithwyr hyn wedi wynebu heriau aruthrol y pandemig drwy eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb. Mae'r cyhoedd yn cydnabod fwy nag erioed ba mor allweddol yw staff gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar – ac nid mewn argyfwng yn unig.

Yn drist, mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Roedd y gweithlu gofal cymdeithasol yn un o'r grwpiau galwedigaethol [oedd fwyaf mewn perygl o farw oherwydd Covid-19 – yn enwedig gweithwyr cartrefi gofal a gofal yn y cartref](#). Mae'r effaith ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl staff hefyd wedi dod i'r amlwg wrth i bobl orfod ymdopi â heriau newydd ac eithriadol anodd.

Mae effaith y pandemig ar bobl hŷn ac anabl, lleiafrifoedd ethnig, rhai merched a phobl yn byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn dipyn o faner goch i'r sector cyhoeddus a chymdeithas. Rhaid i ni sicrhau bod ein gwaith o gynorthwyo adferiad Covid-19 wedi'i oleuo gan:

- y dystiolaeth ddiweddaraf
- siarad a thrafod â phobl eraill
- defnyddio asesiadau effaith cydraddoldeb i ddeall yn well yr effaith y gallai ein penderfyniadau ei gael ar wahanol fathau o bobl¹.

Mae'r pandemig wedi hoelio ffocws ein cynllun ac amcanion cydraddoldeb ar fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hynny a waethygyd gan Covid-19 ac rydyn ni'n benderfynol i roi cydraddoldeb a hawliau dynol wrth galon ein penderfyniadau.

Rydyn ni'n ymrwymedig i fod yn gorff gwrth-gwahaniaethu gan roi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth galon ein gwaith. Rhaid i'n cefnogaeth i'r sector ar ôl Covid-19 gydnabod yr effaith y mae wedi'i gael ar bobl gyda nodweddion a warchodir.

Rydyn ni hefyd yn cydnabod y gallwn ni wneud mwy gyda rhai pethau a bwriadwn roi blaenoriaeth i'r meysydd lle gallwn wneud y mwyaf o wahaniaeth, yn unol â'n cylch gwaith a chyfrifoldebau.

Mae'r cynllun hwn yn disgrifio'r pum maes y bwriadwn ganolbwyntio arnyn nhw wrth weithio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y dyfodol. Mae ein hamcanion cydraddoldeb wedi'u goleuo gan gyfres o ddiwyddiadau ymgysylltu â phobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a warchodir.

Mick Giannasi, Cadeirydd, a Sue Evans, Prif Weithredwr

1. *Ailadeiladu Cymru fwy cyfartal a theg: Ffocws ar effaith anghyfartal pandemig Covid-19, Mai 2020 – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*

Pwy ydyn ni?

Rydyn ni'n darparu arweinyddiaeth ac arbenigedd cenedlaethol ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, gan arwain ar ddatblygu a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, gwella gwasanaethau, data ac ymchwil i wella gofal a chymorth.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Rydyn ni'n:

- **datblygu'r gweithlu** fel bod gan weithwyr y wybodaeth a'r sgiliau i ddiogelu, grymuso a chefnogi'r rhai sydd angen help a gofal
- **gweithio ag eraill i wella gwasanaethau** yn y meysydd sydd â blaenoriaeth genedlaethol
- **rhoi gwybodaeth** i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill
- **rhannu ymarfer** â'r gweithlu fel eu bod yn gallu rhoi'r ymateb gorau i ateb anghenion cymorth pobl
- **gosod blaenoriaethau ymchwil** i gasglu tystiolaeth am beth sy'n gweithio'n dda
- **gosod safonau** i'r gweithlu gofal a chymorth a'u gwneud yn atebol am eu gwaith.

Cefnogwn a hyrwyddwn arloesi a rhannwn wybodaeth, arferion a phrofiadau ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gweithiwn gyda phartneriaid fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i roi canlyniadau gwell i bobl a theuluoedd sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'r rhai sy'n ei ddarparu. Byddwn yn arweinydd, pencampwr a llais dros ofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar gan herio'n adeiladol a rhoi cymorth i staff proffesiynol a darparwyr.

Mae ein gwaith wedi'i ategu gan yr egwyddor bod oedolion a phlant sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'u teuluoedd a'u gofawyr, yn gweithio gyda'i gilydd i greu'r cymorth sy'n gweithio iddyn nhw. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar werthoedd a'r egwyddor mai'r bobl sy'n defnyddio gwasanaeth yw'r rhai gorau i helpu ei ddylunio. Fe wnawn ni hyn yn uniongyrchol drwy ein gwaith lle gallwn, ond byddwn ni hefyd yn sicrhau y gweithredwn y dull hwn wrth roi cyngor ar dystiolaeth i'r sector.

Ein gweledigaeth

Rydyn ni eisiau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal a chymorth yng Nghymru ar gyfer plant, oedolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Ein cynllun cydraddoldeb strategol

Mae gennym ni ddyletswydd statudol i gyhoeddi cynllun cydraddoldeb.

Ond ein huchelgais yw gwneud mwy gan hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu ym mhopeth a wnawn gan arwain i sicrhau bod Cymru'n gwrthwynebu gwahaniaethu drwy fod yn effro iddo, codi llais yn ei erbyn a'i herio ym mha bynnag ffurf.

Datblygu ein cynllun ac amcanion cydraddoldeb ar gyfer 2022 i 2027

Mae ein cynllun ac amcanion cydraddoldeb wedi'u goleuo gan wahanol dystiolaeth fel:

- [Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl Covid-19](#) – Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2021
- [Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig](#) – Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau LIC, Awst 2020
- [Grŵp Cyngori BAME y Prif Weinidog ar Covid-19: Adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-Gymdeithasol](#) – Mehefin 2020
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, [Ailadeiladu Cymru fwy cyfartal a theg: Canolbwyntio ar effaith anghyfartal pandemig y Coronafeirws](#) – Mai 2020
- [proffil cydraddoldeb y gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda ni](#)
- *Coronavirus (COVID-19) related deaths by occupation, England and Wales: deaths registered between 9 March and 28 December 2020* – Swyddfa Ystadegau Gwladol

Siarad gyda, a chynnwys pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth

Pan osodwn ni ein hamcanion cydraddoldeb, mae'n bwysig i ni wrando ar ac adlewyrchu barn pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a warchodir. Nid yn unig oherwydd ein dyletswydd gyfreithiol i wneud hyn ond er mwyn sicrhau bod ein gwaith wedi'i oleuo gan farn ac anghenion y bobl hyn.

Mae ein hamcanion cydraddoldeb wedi'u goleuo gan rai sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gyda chymorth gan Diverse Cymru, yn Rhagfyr 2020 fe wnaethon ni gynnal chwe digwyddiad ymgysylltu gan rannu holiadur ar-lein i brofi'r amcanion cydraddoldeb drafft.

Cawsom adborth gan bobl oedd yn cynrychioli ystod o'r nodweddion a warchodir.

Rydyn ni'n ddiolchgar i'r bobl wnaeth ein helpu i greu ein hamcanion cydraddoldeb a phawb a gymrodd amser i wneud sylwadau ar ein cynlluniau. Fe wnaeth llawer roi eu hamser yn barod iawn a hoffem gydnabod a diolch iddyn nhw am eu cyfraniad.

Mae eu hadborth wedi bod yn amhrisiadwy i'n helpu i sicrhau bod ein hamcanion cydraddoldeb yn adlewyrchu blaenoriaethau a phryderon gwahanol gymunedau'n well.

Byddwn ni'n parhau i siarad gyda, a chynnwys, ystod amrywiol o bobl wrth i ni gyflawni'r ymrwymadau a wnawn yn ein cynllun cydraddoldeb strategol.



Ein dull sefydliadol o weithio

Byddwn ni'n hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu ym mhopeth a wnawn. Byddwn ni'n ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith i gyd gan ddisgwyl i'n staff ddeall egwyddorion tegwch, cydraddoldeb a chynhwysiant, a gweithio ar eu sail.

Byddwn ni'n mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail nodweddion a warchodir² (a ddisgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010) ac unrhyw wahaniaethu a brofir ar sail:

- dewis iaith
- cyfrifoldebau teuluol/domestig
- statws economaidd-gymdeithasol
- unrhyw nodwedd unigol arall a allai gyfyngu ar gyfle rhywun i gyflawni'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae hefyd yn bwysig i ni gydnabod realiti 'croestoriadedd' yn ein gwaith. Mae angen i ni gydnabod effaith gronnu gwahanol hunaniaethau a deall effaith ein gwaith wrth i ni ddatblygu a gwireddu ein blaenoriaethau.

Bydd aelodau ein Bwrdd yn dilyn ein cynllun cydraddoldeb pum mlynedd i graffu ar ein gwaith a'n cynnydd gyda chyrraedd yr amcanion cydraddoldeb, gan ddal ein staff i gyfrif. Byddwn ni'n rhannu ein cynnydd gyda chyrraedd ein hamcanion cydraddoldeb gyda chi ar ein gwefan, ac wrth gyfathrebu ac mewn cyfarfodydd gyda chi.

Dull strategol cynhwysfawr

I sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu gwreiddio drwy ein holl waith, bwriadwn wneud i ffwrdd â'r gwahaniaeth artiffisial rhwng y gwaith hwn a'n gwaith ehangach. Daw'r cynllun cydraddoldeb yn rhan sylfaenol o'n cynllun strategol corfforaethol newydd a byddwn yn adrodd i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru ar ein cynnydd gyda chyflawni ymrwymiadau'r cynllun.

Byddwn ni'n gwneud ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu'n amcan canolog i'n cynllun strategol.

2. [Oed](#), [anabledd](#), [aillbennu rhywedd](#), [priodas a phartneriaeth sifil](#), [beichiogrwydd a mamolaeth](#), [hil](#), [crefydd neu gred](#), [rhyw](#) a [thuoddiad rhywiol](#).

Arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru

Gwyddom ni fod Llywodraeth Cymru'n arwain ar hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Gwyddom ni fod *Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-Hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTTC+* yn cael eu ddatblygu, gyda chynlluniau eraill tebyg ar gyfer pobl â nodweddion a warchodir efallai i ddilyn.

Rydyn ni'n llwyr gefnogi a chrosawu'r arweinyddiaeth yma. Mae'n gosod meincnodau uchelgeisiol ac amserol i ni gyd. Byddwn ni'n parhau i addasu ein cynlluniau i adlewyrchu'r arweinyddiaeth hon a gwneud popeth y mae'n ddyletswydd arnom ni ei wneud.

Gwyddom ni hefyd fod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cynnal [ymchwiliad i anghydraddoldeb hiliol](#), gan edrych ar brofiadau gweithwyr lleiafrifol ethnig ar gyflogau isel yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig. Byddwn ni'n bwydo'r gwaith hwn i weithrediad ein cynllun.

Yn olaf, rydym yn cydnabod arweinyddiaeth arloesol Llywodraeth Cymru ar anfantais economaidd-gymdeithasol ar adeg pryd y mae pandemig Covid-19 wedi arwain at fwy o dlodi yng Nghymru a dirwasgiad economaidd posib. Rydym yn benderfynol, drwy ein hymdrechion i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, o gefnogi amcanion [y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol](#).

Yr iaith Gymraeg

Rydyn ni'n cydnabod ein cyfrifoldebau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'n rôl arweiniol yn cefnogi fframwaith Llywodraeth Cymru *Mwy na geiriau: fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol drwy'r Gymraeg*.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg (Deddf Iaith Gymraeg 1993) a'r Safonau Iaith Gymraeg yn disgrifio sut y mae angen i ni drin yr ieithoedd Saesneg a'r Gymraeg yn gyfartal. Er nad yw'r Gymraeg yn nodwedd a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae ein ffordd o weithio a'n gwerthoedd yn sicrhau bod ein gwaith a'n penderfyniadau polisi'n hybu pwysigrwydd y Gymraeg i bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Ein hamcanion

Amcan 1: Gwella'r defnydd o ddata a gwybodaeth am gydraddoldeb

Beth ydyn ni eisiau ei wneud?

Byddwn ni'n casglu data gwell am y gweithlu gofal cymdeithasol a gwella sut y mae'n cael ei ddefnyddio er mwyn deall yn well beth all y sector ei wneud i sicrhau gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu ei gymunedau'n well.

Pam fod hyn yn un o'n hamcanion?

Dymunwn weld gweithlu gofal cymdeithasol sy'n fwy cynrychiadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, yn enwedig os oes tystiolaeth o dan-gynrychiolaeth. Ein nod yw gweithio gyda phartneriaid i adnabod a chael gwared ar y pethau sydd efallai'n rhwystro pobl gydag un neu fwy o'r nodweddion a warchodir rhag ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Drwy weithio gyda chyflogwyr i ddelio â phroblemau denu, recriwtio a chadw staff, a thrwy roi hyfforddiant, gwybodaeth ac adnoddau iddyn nhw, byddwn ni'n sicrhau bod gofal a chymorth da'n cael ei roi i bobl, plant a theuluoedd.

Yn ôl ein [cyhoeddiad diweddar ar y gweithlu gofal cartref](#) mae 84 y cant yn ferched, 97 y cant yn wyn a dim ond naw y cant yn rhugl yn y Gymraeg. Mae angen i hyn newid os ydyn ni o ddifrif am ddarparu gofal a chymorth ystyrlon. Mae darparu gofal a chymorth i rywun yn rhywbeth personol iawn ac mae cwlwm cyffredin o ymddiried, diwylliant ac iaith yn helpu i ddarparu gofal o'r ansawdd gorau.

Rhaid i ni hefyd ystyried y grwpiau sydd fwyaf tebygol o fod yn cael eu heffeithio gan y cynnydd mewn tldi o ganlyniad i Covid-19. Mae'r rhain yn cynnwys pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl, sydd agos at y llinell dlodi'n barod³.

Clywsom gan bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, y dylai'r amcan hwn hefyd ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl sy'n defnyddio amrywiaeth o ieithoedd, ac yn hanu o wahanol ddiwylliannau, yn derbyn cymorth priodol.

3. *How coronavirus has affected equality and human rights* – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2020

Bydd ein camau cyntaf yn cynnwys:

Camau gweithredu	Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth?
<ul style="list-style-type: none"> • Drwy <i>Ymagwedd Strategol at Ddata Gofal Cymdeithasol yng Nghymru</i>, byddwn ni'n cymryd camau penodol i wella casglu ac argaeledd data er mwyn creu gweithle tecach a mwy cyfartal. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cyflogwyr ac awdurdodau lleol yn defnyddio mwy ar ein data a'n barn i adnabod tueddiadau ac unrhyw gyfle i wella ymarfer, cyflogaeth a chadw staff.
<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn ni'n gweithio ag awdurdodau lleol a darparwyr i wella'r data a gasglwn am y gweithlu gofal cymdeithasol ac yn treialu porth ar-lein newydd cyn ei gyflwyno i ddarparwyr, fydd yn casglu data cyfunol am nodweddion a warchodir. 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn ni'n gweld gwelliannau yn ansawdd a pha mor gyflawn fydd y data am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithlu (fel canran y data am nodweddion a warchodir).
<ul style="list-style-type: none"> • Wrth i gofrestru proffesiynol ehangu, bydd y data a gasglwn yn rhoi dealltwriaeth well i ni a'r sector am ein gweithlu rheoledig, gan gynnwys sut y mae'n newid dros amser. 	<ul style="list-style-type: none"> • Erbyn Hydref 2022 byddwn ni wedi gorffen cofrestru staff cartrefi gofal i oedolion, a grwpiau newydd eraill. • Byddwn ni'n cyhoeddi adroddiadau proffil am y bobl ar ein Cofrestr, yn cynnwys adroddiadau penodol am grwpiau newydd a rhai presennol, o fis Ionawr 2023 ymlaen.

Amcan 2: Cydraddoldeb yn y gwaith

Beth ydyn ni eisiau ei wneud?

Byddwn ni'n gweithio gyda chyflogwyr ac arweinwyr gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar i'w helpu i roi mwy o gyfle cyfartal i'r gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.

Pam fod hyn yn un o'n hamcanion?

Mae cymunedau lleiafrifol ethnig wedi adrodd anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru, gyda rhai staff iechyd a gofal cymdeithasol yn dweud eu bod yn teimlo iddyn nhw gael eu trin yn llai ffafriol na'u cydweithwyr gwyn yn ystod pandemig Covid-19⁴.

Mae'r GMB hefyd yn adrodd bod gweithwyr o gefndir lleiafrifol ethnig yn parhau i fod mewn perygl difrifol yn y gwaith oherwydd diffyg cynnal asesiadau risg cynhwysfawr yn ystod y pandemig⁵. Credwn y dylai gweithleoedd gofal cymdeithasol arwain ar gydraddoldeb a chynhwysiant gan roi cyfle i bawb ffynnu a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn y gwaith, beth bynnag yw eu cefndir, hunaniaeth neu amgylchiadau.

Mae mynd y filltir arall i gefnogi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas wedi bod yn rhan fawr o ymroddiad y gweithle gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar dros y pandemig. Mae'r pandemig hefyd wedi codi proffil y gweithlu, eu gwaith, a'u gwerth i gymdeithas fel gweithwyr allweddol.

Ond mae llawer ohonyn nhw ar gyflogau cymharol isel ac mewn swyddi sy'n aml yn ansicr⁶. Mae cael swyddi ac incwm sicr yn rhan hanfodol (ymhlith nifer o ffactorau) o sicrhau bod arferion gwaith y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yn gyfartal a theg.

Byddwn ni'n gyfaill cefnogol a beirniadol gan herio darparwyr a chyflogwyr i sicrhau bod unrhyw gamau i ddelio ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar y dystiolaeth gryfaf.

Byddwn ni'n cefnogi'r uchelgais i gael incwm teg a chydabyddiaeth ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn ystyried adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg (2019) ac *A Yw Cymru'n Decach?* (2018).

4. Grŵp Cynghori BAME y Prif Weinidog ar Covid-19: Adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-Gymdeithasol – Mehefin 2020

5. Adroddiad y GMB – Gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a Covid-19 – Hydref 2020

6. *Fair care work. A post Covid-19 agenda for integrated employment relations in health and social care*, Ysgol Fusnes Coleg King's, Llundain – Mehefin 2020

Bydd ein camau cyntaf yn cynnwys:

Camau gweithredu	Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth?
<ul style="list-style-type: none"> Byddwn ni'n treialu dulliau cymorth newydd yn ein gwaith rheoleiddio i sicrhau bod gan bobl sy'n wynebu camau yn eu herbyn fynediad at gyngor a rhywun i'w cynrychioli drwy gydol y broses. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd gwasanaethau cymorth yn cael eu comisiynu ac yn eu lle erbyn Ebrill 2022. Nifer y bobl gofrestredig sy'n derbyn gwasanaethau cymorth o Ebrill 2022 ymlaen.
<ul style="list-style-type: none"> Byddwn ni'n cynnig cymorth parod i <i>Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru</i>, a chynlluniau tebyg, i gynorthwyo'r broses o drawsnewid Cymru. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd ein mesurau ar hyn wedi eu cyplysu i <i>Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru</i>, sydd i'w gyhoeddi yn 2022.

Amcan 3: Cynhwysiant digidol

Beth ydyn ni eisiau ei wneud?

Gweithio i sicrhau bod cydraddoldeb, hygyrchedd a chynhwysiant yn ganolog i'n gwaith o greu gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar digidol-barod yng Nghymru.

Pam fod hyn yn un o'n hamcanion?

Mae'r byd wedi newid oherwydd y pandemig. Un o'r newidiadau mwyaf oedd pa mor gyflym y symudodd bawb at wasanaethau digidol a chyfathrebu'n rhithiol, gyda'r risg o waethygu'r annhegwch mewn cymdeithas.

Gall fod yn anodd i weithwyr gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar nad ydynt yn defnyddio, neu sydd heb fynediad at dechnoleg ddigidol, ymdopi â'r cynnydd mewn gweithio'n ddigidol, yn ein sefydliad ni ac eraill yn y sector, wrth i ni ddechrau cefnogi ei adferiad a'i gynaliadwyedd.

Gwelsom hefyd dwf cyflym mewn defnyddio technolegau digidol fel dyfeisiau llechen, i roi mynediad at gymorth a chynngor i bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth. Dengys hyn yn glir bod angen i ni ailfeddwl am rôl adnoddau digidol wrth asesu a darparu gofal o hyn ymlaen^{7,1}.

Gellir ond gwireddu uchelgais strategaeth y gweithlu i "creu gweithlu digidol-barod" os yw cydraddoldeb a hygyrchedd wrth galon llythrennedd, sgiliau a gallu digidol.

Clywsom gan bobl gyda nodweddion a warchodir fod y broblem hon yn bryder mawr i'r dyfodol. Dywedodd y bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu gofalwyr a'u theuluoedd, eu bod nhw a'u gweithwyr gofal hefyd wedi gorfod addasu'n gyflym dros y pandemig i gael eu hasesu ar-lein, oherwydd na ellid darparu cymorth wyneb yn wyneb.

Byddwn ni'n gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella mynediad pobl at fand-eang fforddiadwy ar draws Cymru, ynghyd â gwybodaeth a sgiliau digidol pobl, i'w helpu i wneud y mwyaf o wasanaethau cyhoeddus digidol. Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr i gefnogi eu gweithlu.

7. *The Road to Renewal: five priorities for health and social care* – Cronfa'r Brenin, Gorffennaf 2020

Bydd ein camau cyntaf yn cynnwys:

Camau gweithredu	Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth?
<ul style="list-style-type: none"> Byddwn ni'n gweithio ag eraill, gan gynnwys Cymunedau Digidol Cymru, i helpu staff i wella eu sgiliau a hyder digidol. 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer yr adnoddau a gynhyrchir, a'r adborth ansawdd a gawn gan ddefnyddwyr. Ystadegau ar gynnydd mewn hyder defnyddwyr ar sail gwerthusiadau cyn-asesu ac ôl-asesu'r modiwlau.
<ul style="list-style-type: none"> Byddwn ni'n gwreiddio egwyddorion dylunio defnyddiwr-ganolog wrth ddatblygu adnoddau digidol newydd i'r sector, gan flaenoriaethu hygyrchedd ar draws ein holl waith digidol. 	<ul style="list-style-type: none"> Adborth gan y gweithlu (dysgwyr) ar raglenni penodol (adnoddau digidol), gan gynnwys gwerthusiadau gan ddysgwyr sy'n defnyddio ein system rheoli dysgu.

Amcan 4: Llesiant y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar

Beth ydyn ni eisiau ei wneud?

Byddwn ni'n hyrwyddo ein cynigion a'n hadnoddau llesiant gan wella mynediad atyn nhw, i gefnogi llesiant y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.

Pam fod hyn yn un o'n hamcanion?

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos y pwysau ar weithwyr gofal cymdeithasol rheng-flaen yn glir. Mae'r pwysau hyn – ynghyd â'r risg gynyddol o ddal Covid-19 ac ofni rhoi aelodau o'r teulu mewn perygl – wedi codi pryderon am y straen cynyddol sydd ar weithwyr⁸.

Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar lesiant corfforol a llesiant meddwl y gweithlu, gyda lefelau uwch o salwch a gorbryderu. Roedd gan y gweithlu gofal cymdeithasol un o'r [cyfraddau marwolaeth uchaf](#) o bob galwedigaeth yn ystod ton gyntaf y pandemig, ac mae'r pandemig wedi arwain at gydnabod yn fwyfwy o hyd pa mor bwysig yw cefnogi llesiant y gweithlu.

Rydyn ni'n gweithio ag eraill i ddatblygu rhaglenni ac adnoddau gwella llesiant sy'n adlewyrchu ystod profiadau gweithwyr mewn gwahanol leoliadau gwaith a swyddi. Drwy wneud hyn, rhaid i ni gydnabod yr heriau penodol ac unigryw a wynebwr gan bobl sydd â nodweddion a warchodir. Credwn fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn hanfodol i sicrhau llesiant ein gweithlu a rhaid i'r pethau hyn fod wrth galon ein ffordd o weithio.

Clywsom gan bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth fod effaith Covid-19 ar iechyd meddwl a llesiant yn gwneud yr amcan hwn yn llawer mwy taer a bod yn rhaid i ni, a chyflogwyr gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar, weithredu ar unwaith i gyflawni'r amcan hwn.

8. *The Impact of COVID-19 on social care workers' workload, wellbeing and ability to provide care safely: Findings from the UK* – Prifysgol Caint, Tachwedd 2020

Bydd ein camau cyntaf yn cynnwys:

Camau gweithredu	Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth?
<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn ni'n datblygu a darparu gwasanaeth llesiant eang i staff gofal cymdeithasol gan sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch ac agored i anghenion gweithlu amrywiol. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno fframwaith iechyd a llesiant i helpu cyflogwyr i hybu llesiant eu staff. 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn ni'n gweld llesiant gwell ymhlith y gweithlu. • Cyrhaeddiad ein gwasanaeth llesiant a faint fydd yn ei ddefnyddio. • Nifer y cyflogwyr a gweithleoedd fydd yn defnyddio adnoddau'r fframwaith iechyd a llesiant.
<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn ni'n cyflwyno dull cyson o fonitro a mesur profiad gweithwyr drwy arolygon staff iechyd a gofal cymdeithasol. Gallwn ni yna gofnodi profiadau staff ar draws gwahanol leoliadau, grwpiau proffesiynol a nodweddion a warchodir. 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn ni'n cyflwyno arolwg llesiant hygyrch, hawdd ei ddeall ac sy'n rhoi hyder i'r gweithlu. • Nifer y bobl sy'n cwblhau'r arolwg llesiant. • Cyrhaeddiad yr arolwg llesiant ac amrywiaeth y gweithlu sy'n ei gwblhau.

Amcan 5: Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yng Ngofal Cymdeithasol Cymru

Beth ydyn ni eisiau ei wneud?

Byddwn ni'n hyrwyddo cyfleoedd i weithio gyda ni, i'n helpu i recriwtio Bwrdd, staff a phanel rheoleiddio mwy amrywiol a chynhwysol, ac ehangu ein rhwydweithiau.

Pam fod hyn yn un o'n hamcanion?

Ein nod yw arwain drwy esiampl. Rydyn ni'n falch o amrywiaeth ein Bwrdd o ran rhywedd, oed, anabledd, cefndir a phrofiadau byw. Ond credwn ni y gallwn ni wneud mwy i wella amrywiaeth ein Bwrdd.

Credwn ni y gallwn ni hefyd wneud mwy i wella amrywiaeth ein panel rheoleiddio sy'n edrych ar y dystiolaeth a gasglwyd mewn achosion lle lleisiwyd pryderon am ymddygiad gweithwyr gofal cymdeithasol.

Clywsom gan bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth fod yn rhaid i'r newid ddechrau gyda ni os am gyflawni'r amcan hwn. Dylem ni rannu enghreifftiau o sut y gweithiodd hyn yn dda a dylanwadu ar ein partneriaid a rhwydweithiau drwy ein mesurau a chyfathrebu positif i helpu i wasgaru'r newid diwylliant hwn.

Byddwn ni'n parhau i fonitro amrywiaeth ein staff. Ein nod yw creu amgylchedd i staff gael ffynnu, gwneud eu gwaith gorau a lle bydd eu gwahaniaeth yn cael ei werthfawrogi. Byddwn ni'n ceisio cael gwared ar wahaniaethu a sicrhau bod gan bawb yr un cyfle gan annog cysylltiadau da rhwng ein staff, aelodau'r Bwrdd ac unrhyw un arall sy'n rhan o'n gwaith.

Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at fwy o dlodi yng Nghymru ynghyd ag incymau is a'r posibilrwydd o ddirwasgiad economaidd. Bydd hyn yn cael mwy o effaith ar bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn barod ac yn torri ar draws pob math o anghydraddoldeb.

Bydd ein gwaith o wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein sefydliad yn ein helpu i symud [y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol](#) ymlaen a thrwy hynny'n lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol.

Bydd ein camau cyntaf yn cynnwys:

Camau gweithredu	Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth?
<ul style="list-style-type: none"> Byddwn ni'n darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol i'n holl staff ac aelodau'r Bwrdd. Bydd hyn yn cael ei wreiddio yn y broses gynefino i'r staff ac aelodau, gyda gwerthusiad i ddilyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Canlyniadau'r arolwg staff o ran sut y mae'r hyn a ddysgwyd wedi gwella gwybodaeth a sgiliau staff a sut y defnyddiwyd y dysgu hwn yn eu gwaith. Canlyniadau adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd o ran sut y mae'r hyn a ddysgwyd wedi gwella gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd a sut y defnyddiwyd y dysgu hwn yn eu gwaith.
<ul style="list-style-type: none"> Byddwn ni'n adolygu ein gwaith recriwtio i sicrhau ein bod yn annog ceisiadau gan bobl gyda nodweddion a warchodir, gan gynnwys gwreiddio meincnodau allanol fel y cynllun Hyderus o ran Anabledd. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd ein holl waith recriwtio'n unol ag ymarfer gorau. Byddwn ni'n defnyddio proffiliau data recriwtio i oleuo sut y recriwtiwn yn y dyfodol.
<ul style="list-style-type: none"> Byddwn ni'n rhoi cymorth parod i Lywodraeth Cymru wrth recriwtio i'r Bwrdd drwy ymgysylltu, cyfathrebu a hyrwyddo cyfleoedd i'n helpu i recriwtio Bwrdd mwy amrywiol o ran denu ymgeiswyr o gefndiroedd du a lleiafrifol ethnig. 	<ul style="list-style-type: none"> Byddwn ni'n asesu gwerthuso ac adborth ar ein gwaith cyfathrebu wrth recriwtio'r Bwrdd. Bydd hyn yn ein helpu i feddwl am ffyrdd eraill o hyrwyddo rôl y Bwrdd a recriwtio yn y dyfodol gydag Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Proffiliau data recriwtio (gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru).

Mesur ein cynnydd

Bydd pob un o'r pum amcan yn y cynllun hwn yn cael eu hadrodd yn yr *Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol* a gyhoeddwn ar ein gwefan. Byddwn ni'n defnyddio cymysgedd o fesurau ansoddol a meintiol i asesu ein cynnydd gyda phob amcan.

